## Beth yw ystyr anabledd?

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn datgan bod unigolyn yn anabl os bydd ganddo nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith negyddol 'sylweddol' a 'hirdymor' ar ei allu i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd.

Fodd bynnag, caiff y term ei herio a nodir rhai o'r safbwyntiau gwahanol isod.

## Termau Allweddol

| | |
|---|---|
| Nam | Gwahaniaethau corfforol a meddyliol o'r hyn a gaiff ei ystyried fel y norm, er enghraifft, diffyg golwg. Fodd bynnag, ni all pawb wneud popeth cystal â'i gilydd, er enghraifft, nid yw pawb yn rhedwr da felly rhaid gofyn ar ba gam y gellid eu disgrifio fel rhywun â nam? |
| Anabledd | Nam corfforol neu feddyliol sy'n atal person rhag cyflawni gweithgareddau o ddydd i ddydd yn aml oherwydd rhagfarn a methiannau ar ran cymdeithas i ddiwallu anghenion pobl â namau. Yn ôl Scambler (2016), mae anabledd yn benodol ddiwylliannol a hanesyddol. |
| Stigma | Mae stigma yn broses gymdeithasol sy'n ddieithriad yn arwain at allgáu cymdeithasol. Term negyddol ydyw. Label a roddir ar y rheini ag anabledd corfforol neu feddyliol. Caiff y rheini ag anabledd corfforol neu feddyliol yn aml eu stigmateiddio neu eu labelu mewn ffordd negyddol. Unwaith y cânt eu stigmateiddio, yn aml ni chaiff pobl eu derbyn gan gymdeithas ehangach ac felly ni allant gymryd rhan lawn yn holl weithgareddau cymdeithasol. Mae stigmateiddio yn cynyddu anghydraddoldebau cymdeithasol. |

## Tasg 1:

Dadansoddwch y wybodaeth yn y daflen ffeithiau ar nifer yr achosion o anabledd (ar gael hefyd ar wefan swyddogol y llywodraeth)

https://www.gov.uk/government/publications/disability-facts-and-figures/disability-facts-and-figures#about-these-statistics

Faint o bobl sy'n anabl yn y DU sydd:

1. O dan 16 oed?
2. O oedran gweithio?
3. Wedi ymddeol?

Mae'r llywodraeth yn diweddaru'r data yn barhaus felly dylech sicrhau eich bod wedi cael gafael ar y ffigurau diweddaraf.

© WJEC CBAC LTD 2017

# Cyflwyniad

## Tasg 1 - estyniad:

Cymharwch nifer y bobl anabl â'r niferoedd ar gyfer gwahanol grwpiau ethnig.

*Mae'r data ar gyfer gwahanol grwpiau ethnig ar gael ar wefan SYG hefyd.*

## Tasg 2:

a. Dadansoddwch fodelau iechyd a salwch biofeddygol a chymdeithasol a'u cymhwyso at anabledd.

b. Cymharwch a chyferbynnwch y modelau hyn mewn perthynas ag anabledd.

© WJEC CBAC LTD 2017